

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dementia

Cofnodion: Hydref 2019



Dydd Mawrth 8 Hydref 2019, 12:00pm-1.30pm

Ystafelloedd Cynadledda 1 a 2, Y Pierhead

Cadeirydd: Lynne Neagle AC

Yn bresennol: Lynne Neagle AC (Cadeirydd)

Huw Owen, Sue Phelps, Meryl Randell-Jones, George Parish-Wallace (Cymdeithas Alzheimer's Cymru), Nigel Hullah (Grŵp Dysgu Dementia'r 3 Gwlad), Gwyneth Sweatman, Monica Reardon (Marie Curie), Dr Tracey Bedford, Hattie Hendra (Gwasanaethau Ymchwil Barn), Karyn Davies (Prifysgol De Cymru), Laurence Edwards (Prifysgol Abertawe), Louis Mertens (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion), Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain), Irina Erchovaia (Prifysgol Caerdydd), Charlotte Knight, Eleri Cabbage (Cynulliad Cymru), Dr Natalie Elliot (NCSLT) Linda Willis, Ceri Higgins.

Croesawodd **Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod a gofyn i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno'i hun, gan nodi ei enw a'i sefydliad.

Cyflwynodd **Dr Tracey Bedford (TB)** werthusiad i'r grŵp trawsbleidiol ar ran Gwasanaethau Ymchwil Barn (ORS) o'r ffordd y mae Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia'n cael ei roi ar waith.

Cyflwynodd TB ORS fel sefydliad yn fras, gan esbonio ei fod yn gweithio i'r sector cyhoeddus yn bennaf, gan gynnwys ar feysydd polisi megis tai, iechyd, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol a'r gwasanaethau brys. Yna, disgrifiwyd strwythur cyffredinol ORS, gydag ORS bellach yn gweithio fel cwmni ymchwil annibynnol (o Brifysgol Abertawe gynt).

Esboniodd TB mai nod cyffredinol y gwerthusiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yw rhoi tystiolaeth amserol a chadarn i Lywodraeth Cymru am nodau, gweithredu a chyfraniad y Cynllun Gweithredu Dementia (CGD) o safbwynt rhanddeiliaid allweddol ar draws gwasanaethau dementia, gan gynnwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalywyr a phobl y mae dementia'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Asesu'r cyfraniad y mae'r CGD wedi'i wneud i wella ac ymestyn bywydau'r rhai sy'n byw gyda dementia a, thrwy hynny, eu galluogi i fyw yn eu cymunedau eu hunain;
- Archwilio sut y cyflawnir arfer gorau;
- Nodi bylchau allweddol yn y data presennol a cheisio cryfhau'r asesiad cyfraniadau;
- Casglu data newydd gan unigolion â dementia, eu teuluoedd a'u gofalywyr i asesu rôl ac effaith y modd TAI, gan gynnwys gwaith y Gweithiwr Cymorth Dementia

Amcan allweddol yr asesiad sy'n cael ei gynnal gan ORS yw rhoi tystiolaeth amserol a chadarn i Lywodraeth Cymru ar lwyddiant yr CGD a'i effaith ar lawr gwlad.

Fel rhan o'r broses ymchwil, cynhaliwyd Cyfnod Asesu Cychwynnol, gan gynnwys cymeradwyaeth foesebol, adolygiad deunyddiau darllen a chyfweliadau cwmpasu ag aelodau'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia.

Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad o berfformiad presennol hysbys er mwyn llywio meysydd lle y mae'r CGD wedi llwyddo neu'n brin yn ymarferol i bobl sy'n byw gyda dementia a phobl y mae dementia'n effeithio arnynt.

Soniodd **Hattie Hendra (HH)**, o ran yr adolygiad deunyddiau darllen, mai ychydig iawn o ddeunyddiau darllen perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae ORS yn arbennig o awyddus i glywed gan sefydliadau a phobl sy'n byw gyda dementia a phobl y mae dementia'n effeithio arnynt er mwyn llywio canfyddiadau'r broses ymchwil.

Yna, esboniodd **TB** y broses ymchwil yn fanylach.

Yn gyntaf, cynhelir cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu gyfweiliadau dyfnder ansoddol pâr gyda theuluoedd, gofawyr a grwpiau trafod. Bydd ORS hefyd yn cynnal nifer fach o gyfweiliadau 'astudiaeth achos' hydredol. Yn ogystal, mae arolwg meintiol opsiynol yn bosibl, er y pwysleisiwyd bod angen cytuno ar hyn o hyd.

Ymhellach, bydd ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol a staff rheng flaen eraill, gan gynnwys digwyddiadau ymgynghori a gweithdai gyda'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia a sefydliadau'r sector gwirfoddol, grwpiau ffocws a'r staff rheng flaen sy'n gweithio ym maes gofal dementia.

Yna, bydd y cyfweiliadau â'r grwpiau rhanddeiliaid ac eraill yng ngham un yr asesiad yn cael eu hailasesu yn 2021 i werthuso'r hyn sydd wedi newid, yr hyn sy'n gweithio a'r hyn y mae angen ei ddiwygio er mwyn gwella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia ar lawr gwlad a'r bobl y mae dementia'n effeithio arnynt.

Yna, cyhoeddir adroddiad manwl yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ar y cyfan, nod allweddol yr adroddiad fydd asesu a yw'r CGD yn gweithio ac yn llwyddo. Bydd hefyd yn nodi'r ardaloedd neu'r rhanbarthau sy'n darparu gofal o ansawdd da, ac yn eu cymharu â'r ardaloedd nad ydynt yn gwneud hynny a, thrwy hynny, yn cynnig pwynt cymharu ar gyfer llunio polisi a gweithredu yn y dyfodol.

Pwysleisiwyd, hefyd, fod ymchwil cystal ag ansawdd y data a gesglir, felly mae ORS yn awyddus iawn i gasglu data cywir, cadarn a chlir er mwyn darparu'r darlun cywiraf o'r sefyllfa ar lawr gwlad. Bydd hyn yn gwneud yr adroddiad yn fwy effeithiol.

Yna, atebodd cynrychiolwyr ORS gwestiynau ar y cyflwyniad.

Dywedodd **Cerri Higgins (CH)** y byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'r rhai a oedd yn rhan o'r broses ymgynghori wreiddiol a lywiodd yr CGD yn cael eu cynnwys yn yr asesiad a oedd yn cael ei gynnal gan ORS.

Dywedodd **Nigel Hullah (NH)** fod 12 cyfarfod wedi'u trefnu gan y Gymdeithas Alzheimer's (gyda Rhwydwaith y Prosiect Ymgysylltu a Grymuso ar gyfer Dementia yn bartneriaid cyfartal) a arweiniodd at gyfres o argymhellion clir ar gyfer Llywodraeth Cymru wrth lunio'r CGD.

Yn hynny o beth, y priif bethau y gofynnwyd amdanynt yn y cyfarfodydd oedd bod gofal seibiant yn cael ei ddarparu i ofalwyr a bod gofal yn cael ei drefnu ar sail anghenion yr unigolyn, yn hytrach na gorfodi'r unigolyn i fabwysiadu'r model gofal a ddarperir.

Dyweddodd **Sue Phelps (SP)** fod angen cynnwys pobl y mae dementia'n effeithio arnynt yn ymchwil ac asesiad ORS o'r CGD.

Cymerodd dros 1,000 o bobl ran yn y broses ymgynghori gychwynnol, ac mae'n bwysig bod y rhwydwaith presennol yn cymryd rhan lawn wrth werthuso llwyddiant yr CGD, yn ogystal â rhwydweithiau newydd.

Mae hawliau pobl sy'n byw gyda dementia hefyd yr un mor bwysig, yn yr un modd â hawliau'r rhai y mae dementia'n effeithio arnynt drwy gydol y daith dementia, o'r diagnosis cychwynnol i ofal diwedd oes.

Dyweddodd **TB** fod yr achos dros werthuso ac asesu'r CGD wir yn bwysig i ORS.

Ychwanegodd **SP** fod hwn yn gyfle unigryw i Gymru greu argraff dda a gosod cynsail ar lefel Ewropeaidd.

Dyweddodd **Linda Willis (LW)** y dylid cynnwys gofalwyr yn y cynllun.

Yna, cafwyd cyflwyniad gan **Huw Owen (HO)** ar ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol i ofal ysbyty i bobl â dementia.

Esboniodd fod yr ymchwiliad wedi'i lansio'n gychwynnol ar ffurf arolwg yn seiliedig ar naratif ym mis Hydref 2018 i gasglu straeon a llywio prosesau meddwl ynghylch argymhellion.

Yna, yn ystod haf 2018, lansiwyd arolwg meintiol sy'n ceisio rhoi pwysau ystadegol i'r argymhellion arfaethedig.

Yn ogystal, fel rhan o Gam Un, cynhaliwyd digwyddiadau bord gron gydag Aelodau Cynulliad rhanbarthol ac mewn etholaethau. Ymhlith y lleoliadau oedd Pont-y-pŵl, Wrecsam, Casnewydd a Llangefni.

Hefyd, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau bord gron sefydliadol a ddechreuodd yn 2019. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol ar gyfer y digwyddiadau bord gron sefydliadol oedd cynrychiolwyr o MacMillan, y Coleg Nyrsio Brenhinol a nyrsys dan hyfforddiant o Brifysgol De Cymru.

Cafwyd 11 o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd ac ymatebion ysgrifenedig gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys byrddau iechyd, elusennau a chyrrff proffesiynol.

Yn olaf, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth lafar hefyd gydag Age Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Dr Katie Featherstone ar y panel.

Mae'r ymchwiliad hefyd wedi bod ar ffurf digwyddiadau sioe deithiol ysbytai rhanbarthol ar draws Cymru sy'n cael eu cynnal drwy gydol mis Hydref 2019.

Yna, dangosodd **HO** ganfyddiadau cychwynnol yr ymchwiliad i'r rhai a oedd yn bresennol, sy'n dangos, yn fras, fod y rhan fwyaf o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolyg yn teimlo bod gofal dementia yn yr ysbyty yn wael ar draws Cymru.

Yn benodol, mae 24.5 y cant o'r rhai a holwyd yn credu bod gofal i bobl â dementia mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn 'wael iawn' ac mai dim ond 8 y cant o'r rhai a

holwyd oedd yn teimlo bod gan staff meddygol wybodaeth a dealltwriaeth 'ardderchog' o ddementia.

O ran y camau nesaf, bydd digwyddiadau sioe deithiol ysbytai'n dod i ben erbyn diwedd mis Hydref. Y dyddiad cau ar gyfer llenwi'r arolwg wedi hynny yw 31 Rhagfyr. Yn dilyn hynny, bydd adroddiad yn cael ei ddrafftio erbyn mis Chwefror 2020 gyda'r grŵp trawsbleidiol yn lansio'r adroddiad i Lywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2020.

O ran argymhellion, mae'n debygol y bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- Cynnwys gofalmwr wrth wneud penderfyniadau ym mhob maes dementia
- Cyfeirio a chydweithredu ag adrannau damweiniau ac achosion brys
- Galluogi staff i gymryd risgiau cadarnhaol
- Cael arbenigwr dementia pwrpasol ym mhob uned ysbyty
- Defnydd llawn o'r ffurflenni 'Dyma fi' wrth fynd i'r ysbyty
- Cael system sy'n nodi pobl â dementia
- Defnyddio gwasanaethau gwirfoddol

Gofynnodd **LN** a oedd cwestiynau neu sylwadau i HO ar y cyflwyniad.

Dywedodd **Dr Rosslyn Offord (RO)** ei bod yn gobeithio y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn ffordd a oedd yn sensitif i'r anawsterau yr oedd staff yn eu hwynebu, fel y gallent gael eu clywed a gweithredu arnynt mewn ffordd adeiladol, yn enwedig o ystyried yr anawsterau rydym yn eu hwynebu o ran recriwtio a chadw staff. Yn ogystal, dywedodd RO fod staff dan bwysau oherwydd materion systemig.

Dywedodd **HO** fod gofal sy'n canolbwyntio ar y dasg yn broblem mewn ysbytai ar hyn o bryd, yn hytrach na gofal sy'n canolbwyntio ar amser. O'r herwydd, bydd adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol yn ceisio awgrymu newidiadau i'r system ofal er mwyn annog gofal gwell sy'n fwy addas i'r unigolyn, yn hytrach na chyfyngiadau amser.

Yn ogystal, dywedodd HO y bydd argymhellion yr adroddiad yn cael eu cyflwyno fel atebion posibl i fesur cynnydd yn eu herbyn.

Dywedodd **LN** y byddai cyflwyno'r adroddiad ei hun yn effeithio ar effaith gyffredinol debygol yr adroddiad ar Lywodraeth Cymru. O'r herwydd, esboniodd LN fod llai o ddylanwad gan adroddiadau'r Grŵp Trawsbleidiol nag adroddiadau'r Pwyllgor. Nid oes rheidrwydd ar y Llywodraeth i ymateb i adroddiad gan y Grŵp Trawsbleidiol yn yr un modd ag adroddiad gan y Pwyllgor. Rhaid ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor, yn ôl y Rheolau Sefydlog, o fewn chwe wythnos i'w cyhoeddi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer adroddiadau'r Grŵp Trawsbleidiol.

Pwysleisiodd **Irina Erchovaia (IE)** bwysigrwydd cymharu cleifion dementia â chleifion eraill ar draws y GIG. Ni ellir datrys holl broblemau'r GIG drwy'r un gyfres o argymhellion.

Gofynnodd **CH** sut y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn dysgu gan y bobl nad ydynt yn cael gafael ar yr arolygon, yn defnyddio gwasanaethau meddyg teulu a gwasanaethau iechyd eraill a phobl sydd wedi'u hynysu.

Yna, gofynnodd CH a allai'r grŵp gasglu data mewn ardaloedd a lleoliadau eraill, megis mewn archfarchnadoedd. Mewn lleoliadau y tu allan i ysbytai, mae pobl yn gyffredinol yn fwy hamddenol a gonest yn eu hymatebion i arolygon data. Pwysleisiodd CH bwysigrwydd cynnwys pobl ynysig yn y broses casglu data.

Dywedodd **MRJ** fod gofal cleifion allanol yn wahanol i ofal cleifion mewnol. Fodd bynnag, mae lefel o onestrwydd yn nigwyddiadau'r sioeau teithiol sydd wedi bod yn galonogol. Cafwyd profiadau cadarnhaol wrth gasglu data.

Dywedodd **MRJ** fod lefelau a safonau gofal gwahanol yn yr un ardaloedd lleol. Felly, mae sicrhau cysondeb gofal a pharhad i bobl y mae dementia'n effeithio arnynt neu sy'n byw gyda dementia yn hanfodol bwysig.

Gofynnodd **Monica Reardon (MR)** am grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a phwysleisiodd bwysigrwydd casglu data gan grwpiau lleiafrifol o'r fath, yn enwedig yn asesiad ORS o'r Cynllun Gweithredu Dementia.

Dywedodd **LN** fod pobl sy'n gweithio yn y proffesiwn meddygol ac mewn ysbytai yn tueddu i roi cyfres fwy cadarnhaol o ganlyniadau ar gyfer ansawdd gofal mewn ysbytai i bobl â dementia na'r cleifion eu hunain. Mae hwn yn fater a allai gael ei gam-gynrychioli yn y data a chreu'r argraff, yn y canlyniadau, fod ansawdd y gofal yn well nag y mae mewn gwirionedd.

Yna, esboniodd **HO** y categorïau gwahanol o'r disgrifiad person yn ffurflenni'r arolwg ar gyfer yr ymchwiliad ysbytai.

Yn ddiddorol, dywedodd **MRJ** fod rhai pobl yn llenwi mwy nag un arolwg. Maent yn ymateb yn rhinwedd eu swydd fel gweithiwr meddygol proffesiynol, ac o safbwynt personol fel gofalwr.

Dywedodd **LW** fod sawl diagnosis gwahanol yn y proffesiwn meddygol, a bod angen diagnosis cywir ar bobl sy'n byw gyda dementia ar ddechrau eu taith dementia, yn hytrach na diagnosis anghywir, sy'n cymhlethu pethau ac yn arwain at driniaethau meddygol anghywir.

Dywedodd **SP** fod y meysydd ynghylch derbyniad a rhyddhad o'r ysbyty'n elfennau allweddol o'r arolwg, ac ychwanegodd fod gofal cymdeithasol yn rhan enfawr o hyn. Yna, pwysleisiodd SP bwysigrwydd ymgysylltu â chynrychiolwyr gofal cymdeithasol er mwyn gwella'r gofal cyffredinol i bobl sy'n byw gyda dementia.

Dywedodd **HO**, erbyn 2021, y bydd y Grŵp Trawsbleidiol mewn sefyllfa well gan y bydd y Llywodraeth nesaf wedi'i ffurfio. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gyflwyno sylwadau ac argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Diolchodd **LN** i'r Gymdeithas Alzheimer's am ei holl waith gyda'r ymchwiliad ysbytai.

Dosbarthwyd diweddariad dysgu a datblygu dementia rhwng y rhai a oedd yn bresennol ar ran y Grŵp Dysgu a Datblygu Dementia.

UFA

Cyfarfodydd yn y dyfodol

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2019 - CCB (bydd angen ethol/ailethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd)

Dydd Mawrth 3 Mawrth 2020

Dydd Mawrth 19 Mai 2020

Cynhelir pob cyfarfod rhwng 12.00pm a 1.30pm yn y Pierhead